# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom, ar 11eg Medi 2023**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held via Zoom, on 11th September 2023**

**Yn Bresennol/Present:**
Cynghorwyr/Cllrs Beth Davies, Douglas Davies  Keith Evans, Elen Grantham, Andrew Howell, Mike Hotson, Gethin Jones, Sue Lloyd a Chynghorydd Sir/and County Councillor Maldwyn Lewis

**Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan Cyng Eileen Curry/ Apologies for absence were received from Cllr Eileen Curry

**Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest**

Datganodd Cyng Beth Davies fudd yng nghais ariannol Y Garthen. / Declerations of interest was given by Cllr Beth Davies for the funding application by Y Garthen.

**Adroddiad/Report**

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. Mynegodd yr aelodau eu diolch am yr adroddiad. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area. Members extended their thanks and gratitude for the report.

Isod, gweler rhestr o'r troseddau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi.
Below is a list of crimes that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.

**Adroddiad Gorffennaf / July Report**

**Adroddwyd am 11 o Droseddau, 2 achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac 1 digwyddiad Amheus**
**11 Reported Crimes, 2 Anti-Social Behaviour and 1 Suspicious indident**

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harrasment - 5
Y partïon yn adnabod ei gilydd / both parties known to each other
Trosedd – Domestig / Crime – Domestics – 5
Pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
Trosedd, Ymosodiad / Crime Assault – 2
1 troseddwr hysbys / 1 known offender
1 troseddwr anhysbys / 1 unknown offender
Trosedd, Twyll/Crime Fraud
1 adroddiad, ni gollwyd unrhyw arian /1 report no money lost
Trosedd, Difrod Troseddol / Crime Criminal Damage – 1
Adroddiad am ddifrod i gerbyd / Report of damage to vehicle
Trosedd, Dwyn / Crime Theft - 1
1 adroddiad bod cerbyd wedi'i ddwyn – yr unigolyn dan amheuaeth yn hysbys /1 report of theft of vehicle – suspect known
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-Social Behavior – 1

Adroddiad am gerddoriaeth uchel / Report of loud music
Gweithgarwch Amheus / Suspicious Activity - 1
Adroddiad am arogl canabis / Report of a smell of cannabis

**Adroddiad Awst / August Report**

**Adroddwyd am 11 o Droseddau, 2 achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac 1 digwyddiad Amheus**
**11 Reported Crimes, 2 Anti-Social Behaviour and 1 Suspicious indident**

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harrasment - 1
Y partïon yn adnabod ei gilydd / both parties known to each other
Trosedd – Domestig / Crime – Domestics – 7
Pob parti yn adnabod ei gilydd / All parties known to each other
Trosedd, Difrod Troseddol / Crime Criminal Damage – 1
Adroddiad am ddifrod i gerbyd / Report of damage to vehicle
Adroddiad am waith anawdurdodedig ar heneb gofrestredig ar dir preifat / Report of unauthorised work on a scheduled monument on private land
Trosedd – Rhywiol / Crime – Sexual – 1
Adroddiad am gam-drin plant / Report of child abuse
Trosedd, arfau / Crime weapons – 1
1 adroddiad am berchnogaeth cleddyf anawdurdodedig / 1 report of unauthorised sword ownership
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-Social Behavior – 2
1 Adroddiad am bobl ifanc yn cynnull yn y parc / 1 Report of youths gathering in the park
1 Adroddiad am gerbyd gwersylla yn rhedeg generadur swnllyd / 1 Report of campervan running a noisy generator
Gweithgarwch Amheus / Suspicious Activity - 1
1 Adroddiad am gi ar goll / 1 Report of missing dog

CYMORTHFEYDD CYMUNEDOL / COMMUNITY SURGERIES
Capel Dewi – Bob bore dydd Iau / Thursday mornings 11:00
Pontsiân – Bob bore dydd Mawrth / Tuesday mornings 11:30

**Cofnodion/Minutes**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2023 / Minutes of monthly meeting held on 10 July 2023 were confirmed

| | |
|---|---|
| **Materion yn Codi: -**<br>**<u>Meinciau</u>**<br>Hysbyswyd y Cyngor gan Gyng Keith Evans bod Rhodri Thomas wedi sicrhau'r byrddau picnic a'r meinciau yn lle chwarae Llandysul. Penderfynwyd y byddai Capel Dewi yn sicrhau caniatâd i osod 2 faint yn y pentref. Bydd Cyng Keith Evans yn cydlynu'r gweithredu uchod ac yn cysylltu â'r contractwr er mwyn gwaredu'r meinciau sydd wedi dirywio'n sylweddol o le chwarae Llandysul, a'u disodli gyda mainc a sylfaen arall.<br>**<u>Diffibrilwyr</u>**<br>Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Sue Lloyd nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt gyda sioe Cwmsychpant am y cam o drosglwyddo'r gwarcheidwaeth. Yn ogystal, penderfynwyd ceisio eglurhad am y gwaith o gynnal a chadw yr offer a'r costau cysylltiedig.<br>**<u>Cysgodfan fysiau Horeb</u>**<br>Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir a gofyn iddynt waredu'r Persbecs sydd wedi toddi, nes bod y gysgodfan yn cael ei disodli, gan bod golwg wael arno.<br>**4) Ceisiadau Ariannol:**<br>**<u>Plethu</u>**<br>Gofynnwyd am rodd o £1400 i dalu'r costau ychwanegol a fu ynghlwm wrth greu murlun i gofio Elen, mam Owain Glyndŵr, a oedd yn byw yn Llandysul ganrifoedd yn ôl. Estynnodd yr aelodau longyfarchiadau i'r arlunydd ar ei gwaith, y mae modd ei weld ar wal canolfan hamdden Calon Tysul, a phenderfynwyd rhoi £500.<br>**<u>Y Garthen</u>**<br>Gadawodd Cyng Beth Davies y cyfarfod ac ymgymerodd yr Is-Gadeirydd, Andrew Howell, â rôl y Cadeirydd yn ystod y drafodaeth am y cais.<br>Gofynnwyd am rodd o £500 am help i argraffu'r Papur Bro. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano.<br>**<u>Ffermwyr Ifanc Pontsiân</u>**<br>Cafwyd cais am rodd o £500 gan Glwb Ffermwyr Ifanc Pontsiân i sefydlu adran storio gwisgoedd. Penderfynwyd rhoi'r swm y gofynnwyd amdano ac estynnodd yr Aelodau eu llongyfarchiadau i'r clwb ar ei waith rhagorol yn ein cymuned. | **Matters Arising: -**<br>**<u>Benches</u>**<br>Cllr Keith Evans informed the Council that Rhodri Thomas had secured the picnic tables and benches in the Llandysul play area. It was decided that Capel Dewi attain permission to place 2 benches in the village. Cllr Keith Evans to coordinate the above action and contact the contractor to remove badly worn benches from Llandysul playground and replace with another bench and base.<br>**<u>Defibrillators</u>**<br>Cllr Sue Lloyd informed the meeting that she had received no contact from Cwmsychpant show with regards to transferring guardianship. It was also decided to seek clarification on the upkeep and associated costs of the apparatus.<br>**<u>Horeb bus shelter</u>**<br>It was deceided that the Clerk contact the County Council to ask them to remove the molten Perspex until a replacement is in as it is a terrible eyesore.<br>**4) Funding Applications:**<br>**<u>Plethu</u>**<br>A donation of £1400 was requested for additional costs incurred with the creation of a mural commemorating Owain Glyndwr's mother Elen, who resided in Llandysul centuries ago. Members congratulated the artist on her work which can be seen on the pine end wall of Calon Tysul Lesiure centre and decided to donate £500.<br>**<u>Y Garthen</u>**<br>Cllr Beth Davies left the meeting and Vice –Chair Andrew Howell took the Chair during consideration of the request.<br>A donation of £500 was requested for help with printing the Papur Bro. It was deceided to donate the requested amount.<br>**<u>Pontsian Young Farmers</u>**<br>Application was received for a donation of £500 from Pontsian Young Farmers Club to set up a costume storage department. It was decided to donate the requested amount and Members congratulate the club on its excellent work in our community. |

**Rhoddion refeniw blynyddol**
Cafwyd ceisiadau gan Barc Coffa Llandysul (£3000), Calon Tysul (£6000) a Chymdeithas Chwaraeon Llandysul (£5000) am roddion yn ystod tymor y Cyngor (5 mlynedd), er mwyn cynorthwyo i reoli'r cyfleusterau a'u cynnal, a gwnaethpwyd penderfyniad yn flaenorol i'w cymeradwyo. Diben hyn yw cadarnhau'r camau a gymrwyd gan y Clerc wrth ysgrifennu sieciau ar gyfer rhoddion 2023/24, gan gefnogi penderfyniad y Cyngor.

**Diolch am Roddion**
Cafwyd llythyr gan Sioe Llandysul yn mynegi eu diolch am y rhodd a roddwyd.

**5) Materion i'w Trafod**

**Lle Chwarae Plant Llandysul**
Hysbyswyd y cyfarfod gan y Clerc ei bod hi wedi cysylltu â Rospa i drefnu cwrs ar gyfer Rhodri Thomas, ond nad oedd unrhyw gyrsiau ar gael tan y Flwyddyn Newydd.
Penderfynwyd y byddai Cyng Mike Hotson yn ystyried grantiau i ddisodli'r offer yn y Lle Chwarae i Blant ymhellach.
Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng Elen Grantham, ar ôl cael cyfarfod gyda CAVO, bod angen ymgynghori gyda phlant, gan geisio eu safbwyntiau nhw am yr offer chwarae yr hoffent ei weld yn y lle chwarae cyn gwneud cais am unrhyw grant.
**Meinciau a byrddau picnic**
Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â Barcud unwaith eto i weld a ydynt yn dymuno cael Mainc ar gyfer y lle chwarae y tu allan i'r Ganolfan Deuluoedd ar ystad y Ffawydd.

**Sedd Wag Llandysul**
Adroddwyd bod Karen Jones wedi mynegi diddordeb yn y sedd wag. Bydd y clerc yn cysylltu â hi, gan ofyn iddi anfon llythyr o fwriad a chynnwys amlinelliad o'i chefndir a'i phrofiadau.
**Adroddiad am y Coroni**
Roedd Cyng Mike Hotson wedi paratoi adroddiad am y Digwyddiad Coroni Cymunedol a gynhaliwyd ar 7/5/23.
Mynegodd ei siom am y diffyg cefnogaeth a welwyd gan gyd Gynghorwyr.

**Annual revenue donations**
Applications had been received and previously determined from Llandysul Memorial Park (£3000), Calon Tysul (£6000) and Cymdeithas Chwareon Llandysul (£5000) requesting a donations for the Council term (5 years) to aid with the management and upkeep of the facilities. This is to confirm the action taken by Clerk in drawing cheques for the 2023/24 donations in support of Councils decision.

**Receipt of thanks for Donations**
Letters were received from Llandysul Show expressing their gratitude for the donations provided.

**5) Matters for Discussion**

**Llandysul Children's Play area**
Clerk informed the meting that she had contacted Rospa to organise a course for Rhodri Thomas but none ws available until the New Year.
It was decided that Cllr Mike Hotson look further into grants to replace equipment in the Childrens Playarea.
Cllr Elen Grantham informed the meeting that following a meeting with CAVO and of the need to consult with children seeking their views on what play equipment they would like to see in the play area before applying for any grant.
**Benches and picnic tables**
It was decieded that the clerk contact Barcud again to see if they wished to receive a Bench for the playarea outside the Family Centre in the Beeches.

**Llandysul Vacant Seat**
It was reported that Karen Jones had shown an interest in filling the vacancy. Clerk to contact her, requesting that she provide a letter of intent and including an outline of her background and experiences.
**Report on the Coronation**
Cllr Mike Hotson had prepared a report on the Community Coronation Event held on

**Plannu/Chwynnu**
Penderfynwyd gosod y tendr am y gwaith chwynnu ar y wefan.

**Materion Ward Brys**

**Pontsiân**
Nid yw'r ffordd o Bontsiân i Dafarn Bach ger Nantycastell wedi cael ei thrwsio o hyd. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir ynghylch eu gweithredu arfaethedig.
Nid yw'r bont ym Mhontsiân wedi cael ei thrwsio o hyd, er bod Ceredigion wedi addo y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod gwyliau'r haf er mwyn osgoi anawsterau gyda chludiant ysgol.
Hysbyswyd y Cynghorwyr gan Gyng Gethin Jones bod Pontsiân wedi cynnal carnifal a mabolgampau llwyddiannus iawn. Rhoddwyd yr elw i'r neuadd ym Mhontsiân.

**Capel Dewi**
Roedd Cynghorwyr Capel Dewi wedi cael cwynion niferus am geir sy'n goryrru ar hyd Heol y Waun. Penderfynwyd y dylai'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am y posibilrwydd o gyflwyno mesurau gostegu traffig ar hyd y darn hon o'r ffordd. Yn ogystal, penderfynwyd tynnu sylw y PCSO at y mater.

**Tre-groes**
Adroddodd Cyng Beth Davies nad yw Pont Abercefel wedi cael ei thrwsio o hyd.
Nid oes un bolard gyda golau ynddo ar sgwâr Horen yn gweithio o hyd. Hwn yw'r ail folard i mewn wrth i chi droi tuag at Benrhiw-llan.
Mae tyllau niferus yn y ffordd y tu ôl Tŷ Newydd yng Ngorrig.
Mae arwydd pentref Tre-groes wedi cwympo wrth i chi ddod o gyfeiriad Croes-lan. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**
Cafwyd neges e-bost a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cyng Keith Evans, ward De Llandysul, ar gyfer y cyfnod rhwng 11 Gorffennaf 2023 a 10 Medi 2023.
Rhoddodd Cyng Maldwyn Lewis ddiweddariad ar lafar am ward Gogledd Llandysul a Throedyraur.

**Gohebiaeth**

7/5/23. He expressed his disappointment on the lack of support by fellow Councillors.

**Planting/Weeding**
It was decided that the tender for weeding be placed on the website.

**Urgent Ward Matters**

**Pontsian**
The road from Pontsian to Tafarn Bach by Nantycastell had still not been repaired. The clerk to contact the County Council regarding their proposed action.
The bridge in Ponstian had still not been repaired even though Ceredigion had promised it would be done during the summer holidays to avoid difficulties with school transport.
Cllr Gethin Jones inormed the Councillors that Pontsian had held a very successful carnival and sports. All proceeds towards the hall in Pontsian.

**Capel Dewi**
Capel Dewi Councillors had received numerous complaints about cars speeding in Heol y Waun. It was deceided that the clerk contact the County Council asking for the possibility of introducing speed calming measures on this section of highway. It was also decided to bring the matter to the attention of the PCSO.

**Tregroes**
Cllr Beth Davies reported that Abercefel Bridge still hadn't been repaired.
One light bollard on Horeb square was still not working. The bollard is the second one in as you turn towards Penrhiwllan.
The road behind Ty Newydd in Gorrig has numeros pot holes.
The Tregroes village sign had fallen as you approach from the Croeslan direction.
The clerk contact the County Council.

**Report by County Councillors**
E-mail correspondence was received providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 11 July 2023 to 10 September 2023.
Cllr Maldwyn Lewis provided an oral update on the Llandysul North and

| | |
|---|---|
| Cafwyd Clerks and Councils Direct, a nodwyd hynny.<br><br>**<u>Gwybodaeth Ariannol</u>**<br><br>Darparwyd gwybodaeth a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sieciau i dalu.<br><u>Cliand Computers</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £57.60 am brynu blwch cynnal a chadw ar gyfer y peiriant argraffu i'r clerc, a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br><u>Llinos Jones</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £104.47 am y gwaith cyfieithu ym mis Gorffennaf a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br><u>ICO</u> – Ysgrifennwyd siec am y swm o £40.00 ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a derbyniwyd y dylid ei thalu.<br><u>Mark Wilson</u> – Cafwyd anfoneb am y swm o £1652.00 am gynnal a chadw llwybrau troed o'r Gysgodfan Fysiau ger Ysgol Dyffryn Teifi i Afon Teifi, Y Ffawydd i'r Hen Ysgol Gynradd, Llwybr Troed 75-80 Y Ffawydd, Llwybr Troed 48 Y Ffawydd i Barc yr Ynn, cynnal a chadw y darn o borfa ger y mynediad i'r Ffawydd er mwyn gallu gweld wrth ymuno â'r ffordd fawr a dyfrio blodau.<br><br>Ysgrifennwyd sieciau hefyd am y cyllid refeniw blynyddol ar gyfer y 3 sefydliad, fel yr amlinellwyd yn y cofnodion<br><br><u>Banc Bwyd Llandysul</u> – Ailysgrifennwyd siec 001116 gan bod y banc wedi gwrthod yr un gyntaf. | Troedyraur ward.<br><br>**<u>Correspondence</u>**<br>Clerks and Councils Direct were received and noted.<br><br>**<u>Financial Information</u>**<br><br>Information provided cheques passed in payment.<br><u>Cliand Computers</u> – Invoice for £57.60 was received for purchase of a maintenance box for the printer for the clerk and passed for payment.<br><u>Llinos Jones</u> – Invoice for July translation was received for the sum of £104.47 and passed for payment.<br><u>ICO</u> – Cheque was written for £40.00 for General Data Protection Regulation and passed for payment.<br><u>Mark Wilson</u> – Invoice for £1652.00 was received regarding the maintaining of footpaths from Bus Shelter Ysgol Dyffryn Teifi to River Teifi, Beeches to Old Primary School, Footpath 75-80 The Beeches, Footpath 48 Beeches to Parc yr Ynn, maintain Beeches grassed entrance to maintain vision when joining the main highway and watering flowers.<br><br>Cheques also drawn for the annual revenue funding for the 3 organisation as outlined in the minutes<br><br><u>Llandysul Food Bank</u> – Cheque 001116 was re-written as the first one had been declined by the bank. |

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

| | | *£ c/£ p* | *Rhif siec*<br>*Cheque number* |
|---|---|---|---|
| Cliand Computers | Argraffydd y Clerc | 57.60 | 001152 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 104.47 | 001153 |
| ICO | Aelodaeth/Membership | 40.00 | 001154 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc/Clerk Wages July | 530.44 | 001155 |
| HMRC | Cyflog y Clerc/Clerk Wages | 132.62 | 001156 |
| Plethu | Rhodd/Donation | 500.00 | 001157 |
| CFI Pontsian | Rhodd/Donation | 500.00 | 001158 |
| Papur y Garthen | Rhodd/Donation | 500.00 | 001160 |
| Banc Bwyd | Rhodd/Donation | 300.00 | 001161 |
| Mark Wilson | Cynnal a Chadw | 1652.00 | 001162 |
| Cymdeithas Chwaraeon | Rhodd/Donation | 5000.00 | 001163 |
| Ymddiriodolwyr y Parc | Rhodd/Donation | 3000.00 | 001164 |
| Calon Tysul | Rhodd/Donation | 6000.00 | 001165 |